Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Datganiad Technegol ar Gynllunio Morol
## Ceblau tanfor – Diogelu'r Sector

Mehefin 2023



## Cynnwys

Cyflwyniad 3

Diben y Datganiad Technegol hwn ar Gynllunio Morol 3

Ceblau tanfor 4

Polisi Diogelu SAF_01 4

Diogelu ceblau tanfor: Polisi SAF_01a 5

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47599, ISBN digidol 978-1-83504-162-8
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## Cyflwyniad

Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC) yn fframwaith polisi statudol sy'n ein helpu i wneud penderfyniadau ynghylch datblygu'n moroedd yn gynaliadwy. Mae'n disgrifio gweledigaeth ac amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer ardal cynllun morol Cymru a'r polisïau ar gyfer eu gwireddu. Cefnogir y Cynllun gan Ganllawiau Gweithredu ategol sy'n rhoi mwy o fanylion am bolisïau CMCC i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac mewn ffordd gyson.

Mae CMCC yn cynnwys polisïau cefnogi a diogelu ar gyfer rhai sectorau sy'n defnyddio moroedd Cymru. Mae polisïau cefnogi'n cefnogi datblygiad cynaliadwy'r sector. Mae polisïau diogelu'n diogelu buddiannau'r sector rhag effeithiau amhriodol gan weithgareddau eraill.

## Diben y Datganiad Technegol hwn ar Gynllunio Morol

Diben y Datganiad Technegol hwn ar Gynllunio Morol yw cefnogi gweithredu polisi diogelu CMCC ar gyfer Ceblau Tanfor yn effeithiol a chyson. Dylech ddarllen y Datganiad Technegol hwn ochr yn ochr â CMCC a Chanllawiau Gweithredu CMCC. Os oes ansicrwydd ynghylch gofynion CMCC neu unrhyw un o'i bolisïau, neu ynghylch sut i'w gweithredu, dylai penderfynwyr droi at CMCC am eiriad a bwriad diffiniadol y polisi.

Mae'r Datganiad Technegol hwn wedi'i lunio ar gyfer y rheini sydd â rhan yn y penderfyniadau all effeithio ar ardal y cynllun morol, er enghraifft:

- Ymgeiswyr y prosiect.
- Penderfynwyr mewn awdurdodau cyhoeddus gan gynnwys awdurdodau a rheoleiddwyr cynllunio môr a thir.
- Defnyddwyr eraill ardal y cynllun morol.

Mae'r Datganiad Technegol hwn yn rhoi cyd-destun hefyd i bawb sy'n defnyddio ardal y cynllun morol er mwyn deall lleoliad ceblau tanfor, eu glanfeydd, a'r seilwaith cysylltiedig ar y tir, sy'n cael eu diogelu drwy bolisïau CMCC. Dylid ystyried y Datganiad Technegol hwn ochr yn ochr â pholisïau, canllawiau a thystiolaeth anstatudol eraill sy'n ymwneud â'r cynllun morol i gefnogi cynllunio morol yng Nghymru. Caiff ei ddiweddaru o bryd i'w gilydd.

## Ceblau tanfor

Mae CMCC yn cydnabod bod ceblau tanfor yn seilwaith hanfodol y mae ein rhwydweithiau diogelu cyflenwadau ynni a thelathrebu yn dibynnu arno. Ceblau tanfor yw asgwrn cefn seilwaith pŵer, gwybodaeth a thelathrebu rhyngwladol y byd, ac maent yn gymdeithasol ac yn economaidd hanfodol i'r DU. Mae ceblau telathrebu tanfor yn cludo dros 97% o draffig rhyngwladol y byd gan gynnwys gwasanaethau ffôn, rhyngrwyd a data, yn ogystal â llawer o wasanaethau ar gyfer cymunedau lleol y DU, cyfleustodau mawr a diwydiannau. Mae'r ceblau ar draws yr Iwerydd sy'n glanio yn y DU yn cludo dros 70% o draffig rhyngrwyd Ewrop dros yr Iwerydd.

Mae CMCC yn cydnabod bod cyrraedd targedau ynni sero net a'r ehangu cysylltiedig ar dechnolegau ynni adnewyddadwy ar y môr yn gofyn am ddigon o geblau a seilwaith cysylltiedig. Mae angen hyn er mwyn cludo trydan o gyfleusterau ar y môr ac i rannu ynni rhwng gwledydd er mwyn gallu gwella amseriad y cyflenwad/galw am ynni. Mae CMCC hefyd yn cydnabod bod mynediad eang at seilwaith telathrebu fforddiadwy, diogel yn bwysig i gymdeithas a bod cysylltedd telathrebu rhyngwladol yn dibynnu bron yn llwyr ar y rhwydweithiau tanfor o fewn dyfroedd y DU. Er mai cymharol ychydig o geblau telathrebu tanfor sydd yn ardal y Cynllun, mae disgwyl i'r nifer gynyddu er mwyn hwyluso anghenion twf mewn cyfathrebu data.

## Polisi Diogelu SAF_01

Diogelir y sector Ceblau Tanfor drwy Bolisi SAF_01a CMCC, sy'n ymwneud â seilwaith presennol.

Mae polisi SAF_01a yn cydnabod pwysigrwydd diogelu gweithrediadau a buddsoddiadau parhaus. Fe'i lluniwyd i sicrhau bod gweithgareddau presennol yn cael eu hystyried yn glir ac yn systematig wrth wneud penderfyniadau a chydsynio morol mewn perthynas ag unrhyw gynigion newydd sydd â photensial i gael effaith andwyol arnynt.

O ran y sector Ceblau Tanfor, mae Polisi SAF_01a yn diogelu ceblau tanfor, eu glanfeydd a'r seilwaith cysylltiedig ar y tir a fydd yn destun caniatâd cynllunio gan awdurdod lleol.

Mae polisi SAF_01a yn cydnabod y gallai cynigion newydd, mewn rhai achosion, fod â photensial i arwain at effaith/effeithiau niweidiol arwyddocaol ar seilwaith presennol, gan gynnwys ceblau tanfor. Mewn achosion o'r fath, mae'r polisi yn sefydlu hierarchaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynigion ddangos sut y byddant yn osgoi, lleihau neu liniaru'r materion cydnawsedd hyn.

Mae penderfynu ar 'arwyddocaol' yn agwedd bwysig ar y polisi diogelu ar gyfer ceblau tanfor. O ystyried y rôl hanfodol y mae ceblau tanfor yn ei chwarae wrth gefnogi seilwaith pŵer a thelathrebu cenedlaethol, gall unrhyw gynigion sydd â'r potensial i un ai achosi niwed i'r ceblau eu hunain, neu ddylanwadu ar allu gweithredwyr i weithredu a chynnal a chadw'r ceblau yn briodol, gael eu hystyried gan y sawl sy'n gwneud penderfyniad fel cynnig sy'n cael effaith arwyddocaol.

Mae polisi SAF_01a hefyd yn cydnabod, mewn achosion prin ac eithriadol, na ellir osgoi effaith/ effeithiau niweidiol arwyddocaol ar seilwaith sefydledig. Mewn achosion o'r fath, bydd gofyn i ddatblygwyr, wrth ofyn am gael awdurdodi'u prosiect arfaethedig, gyflwyno achos clir sy'n argyhoeddi bod yr amgylchiadau yn eithriadol i gyfiawnhau bwrw ymlaen â'u cynigion. Mae'n bwysig iawn nodi nad yw cyflwyno achos dros fwrw ymlaen yn golygu y bydd cynnig yn cael ei gefnogi. Wrth wneud penderfyniad, mae yn ôl disgresiwn y sawl sy'n gwneud penderfyniadau i bwyso a mesur unrhyw achos dros fwrw ymlaen yn erbyn yr effeithiau andwyol posibl ar y seilwaith a ddiogelir. Yn achos ceblau tanfor, cydnabyddir bod achosion o'r fath yn annhebygol iawn o gael cefnogaeth ymarferol, o ystyried rôl hanfodol ceblau tanfor yn cefnogi'r seilwaith pŵer a thelathrebu cenedlaethol.

## SAF_01: Diogelu gweithgarwch presennol

**a.** Rhaid i gynigion sy'n debygol o gael effeithiau niweidiol arwyddocaol ar weithgaredd sefydledig sy'n dod o dan gais neu awdurdodiad ffurfiol ddangos sut y byddant yn mynd i'r afael â materion cydnawsedd â'r gweithgaredd hwnnw.

Rhaid i gynigion na allant ddangos cydnawsedd digonol gyflwyno achos clir ac argyhoeddiadol dros y cynnig i symud ymlaen o dan amgylchiadau eithriadol.

O dan SAF 01 a, dylid dangos cydnawsedd, yn nhrefn blaenoriaeth:

- Osgoi effeithiau niweidiol arwyddocaol ar y gweithgareddau hynny; a/neu
- Lleihau'r effeithiau niweidiol arwyddocaol lle na ellir eu hosgoi; a/neu
- Lliniaru effeithiau niweidiol arwyddocaol lle na ellir eu lleihau.

## Diogelu ceblau tanfor: Polisi SAF_01a

Mae **Polisi SAF_01a** yn berthnasol i bob cynnig gan bob sector (gan gynnwys cynigion newydd ar gyfer y sector ceblau tanfor) sydd gyda'r potensial i effeithio ar **geblau presennol a rhai arfaethedig a glanfeydd ceblau lle'r rhoddwyd caniatâd, awdurdodiad neu brydles neu y gwnaed cais ffurfiol amdano**. Ar gyfer y ceblau hynny sydd angen caniatâd, ystyr "gwneud cais ffurfiol" yw pan fydd cais am drwydded forol wedi'i dderbyn gan CNC neu'r Sefydliad Rheoli Morol fel cais sydd wedi'i 'wneud yn briodol'. Mae'r Polisi yn berthnasol i safleoedd glanfeydd ceblau a phob llwybr cebl o fewn rhanbarthau glannau a môr ardal y Cynllun, gan gynnwys llwybrau cebl sy'n mynd trwy ardal y Cynllun ond sydd â'u glanfeydd yn ardal cynllun morol cyfagos.

Mae ceblau yn osodiadau sefydlog, ac unwaith y maent wedi'u gosod ar wely'r môr neu wedi eu claddu oddi tano gallant ryngweithio â gweithgareddau eraill sy'n gwneud cyswllt â gwely'r môr. Fel arfer mae ceblau o'r fath yn cael eu claddu lle bo hynny'n briodol, neu gellir eu gorchuddio â deunyddiau diogelu eraill er mwyn amddiffyn y ceblau eu hunain a lleihau'r risg o gysylltiad niweidiol â defnyddwyr eraill y môr. Mae amryw o gyfreithiau cenedlaethol a rhyngwladol ar gyfer amddiffyn ceblau rhag cael eu torri neu eu niweidio (difrod) ac mae'n drosedd yn neddfwriaeth y DU a deddfwriaeth ryngwladol i niweidio cebl yn fwriadol neu drwy esgeuluster beius. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Rhyngwladol ar gyfer Diogelu Ceblau (ICPC) wedi datblygu nifer

o argymhellion sy'n nodi'r arfer gorau ar gyfer gosod ac atgyweirio ceblau i gynorthwyo perchnogion ceblau a defnyddwyr eraill gwely'r môr i hyrwyddo'r nodau uchaf o ran dibynadwyedd a diogelwch yn amgylchedd ceblau tanfor.

Prif effaith Polisi SAF_01a yw diogelu ceblau tanfor rhag effeithiau andwyol arwyddocaol o ganlyniad i ddatblygiadau newydd. Mae datblygiadau newydd gan sectorau eraill, yn ogystal ag o fewn y diwydiant ceblau ei hun, yn cynyddu'r risg o ddifrod o bob math i geblau tanfor. Gall cysylltiad ffisegol corfforol sy'n digwydd â grym niweidio'r cebl a/neu ei fecanwaith cyswllt, gan achosi colled economaidd i weithredwyr y ddau weithgaredd, a gall beryglu diogelwch pobl. Mae difrod i geblau yn ddrud i'w atgyweirio a gall amharu'n sylweddol ar ddosbarthu pŵer a thelathrebu. Felly, mae'n hanfodol bwysig bod seilwaith ceblau presennol yn cael ei ddiogelu'n ddigonol.

Er bod prif ffocws Polisi SAF_01a yn ymwneud â rheoli effeithiau datblygiadau newydd, cydnabyddir bod difrod i geblau'n codi'n aml o weithgareddau morol symudol presennol, fel llongau'n bwrw angor. Fel y nodir yn "MGN 661 (M+F) Navigation – safe and responsible anchoring and fishing practices", dylai gweithredwyr llongau gymryd gofal arbennig wrth angori, pysgota, carthu neu gymryd rhan mewn gweithrediadau tanddwr ger ardaloedd lle gallai'r ceblau hyn fod wedi'u gosod neu yr adroddwyd eu bod ynddynt. Dylai cynigion ar gyfer datblygiadau newydd hefyd ystyried a mynd i'r afael â risgiau i seilwaith ceblau tanfor sy'n deillio o symud gweithgareddau symudol presennol.

Y prif sectorau eraill y mae'r seilwaith ceblau yn rhyngweithio â nhw yw:

- **Gweithgarwch pysgota:** mae prif effeithiau gosod ceblau ar weithgarwch pysgota masnachol yn ymwneud â'r angen i ddulliau pysgota sy'n cyffwrdd â gwaelod y môr osgoi ceblau a osodwyd. Gall hynny arwain at gyfyngu mynediad at ardaloedd pysgota neu at angen i addasu arferion pysgota er mwyn osgoi cydio mewn ceblau. Mae'r risg yn fach yng Nghymru, lle mae mwyafrif y fflyd bysgota yn gychod bach nad ydynt yn defnyddio llusgrwydi neu gêr llusg arall. Fodd bynnag, mae llongau mwy sy'n defnyddio gêr llusg yn gweithredu y tu hwnt i 6 milltir môr (yn enwedig ar gyfer cregyn bylchog) mewn ardaloedd lle mae'n hysbys bod ceblau'n bresennol.
- **Cloddio am Agregau:** nid yw'r gweithgarwch presennol yn cael ei gynnal yn yr un lle â llwybrau ceblau, er y gall hyn newid yn y dyfodol. Mae'n bosibl felly y bydd angen i benderfyniadau yn y dyfodol ynghylch trwyddedu cloddio am agregau ystyried lleoliadau ceblau presennol. Mae'r European Subsea Cables Association (ESCA) a'r British Marine Aggregate Producers Association (BMAPA) wedi cyhoeddi canllawiau ynghylch pa mor agos y dylid caniatáu cloddio am agregau'r môr.
- **Olew a nwy alltraeth a gweithgareddau eraill sy'n defnyddio piblinellau:** polisi Llywodraeth Cymru yw osgoi cloddio am danwyddau ffosil mewn ardaloedd rhynglanwol ac aberoedd a dyfroedd cilfach arfordirol sy'n perthyn i ardal drwyddedu ar y tir Cymru. Fodd bynnag, cedwir pwerau trwyddedu gweithgarwch cloddio am olew a nwy gan Lywodraeth y DU y tu hwnt i'r ffiniau hyn. Mae gweithgarwch cloddio alltraeth am olew a nwy wedi canolbwyntio yn y gorffennol ar ardaloedd oddi ar arfordiroedd y Gogledd a'r Canolbarth, lle mae'n hysbys fod ceblau'n bresennol. I gydymffurfio â Pholisi SAF_01a, bydd angen i unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol ynghylch trwyddedau olew a nwy ystyried lleoliadau ceblau ac unrhyw barthau clustogi. Mae hyn hefyd yn berthnasol i weithgareddau eraill sy'n cynnwys piblinellau, fel pibellau dŵr gwastraff, sydd gan amlaf ar y tir.

- **Llongau a chychod** yn bwrw angor yw un o brif achosion difrod i geblau a dylid ystyried hyn wrth asesu llwybrau a chladdu ceblau ar gyfer prosiectau ceblau a gynigir.


Er bod amryw o gyfreithiau cenedlaethol a rhyngwladol ar gyfer amddiffyn ceblau rhag cael eu torri neu eu niweidio (difrod), nid oes unrhyw ddarpariaeth wedi'i wneud ar gyfer ardaloedd gwahardd statudol yng nghyffiniau ceblau. Mae rheoli risg yn llwyddiannus felly'n dibynnu ar sefydlu mecanweithiau i ddiogelu ceblau a hyrwyddo'u cydfodolaeth â gweithgareddau eraill a allai achosi difrod. Bydd angen hefyd i ddatblygwyr a phenderfynwyr sicrhau bod digon o le yn cael ei neilltuo ar gyfer mynediad diogel at geblau a osodwyd ac ar gyfer eu hatgyweirio: gan amlaf, mae hyn yn golygu clustog naill ochr i'r cebl o dair gwaith dyfnder y dŵr. Yn ogystal, mae canllawiau ESCA yn datgan, os cynigir gweithgarwch o fewn un filltir fôr i gebl, y dylid trafod er mwyn cytuno ar derfynau agosrwydd sy'n dderbyniol i bob parti.

Mae ESCA yn gweithio i hyrwyddo a chynorthwyo dosbarthu data yn lleol. Ar y cyd â Gwasanaeth Gwybodaeth Kingfisher gan Seafish, mae wedi datblygu prosiect KIS-ORCA, gyda'r nod o ddarparu gwybodaeth gywir, diweddar yn ddi-dâl sy'n ymwneud â lleoliad ceblau tanfor a strwythurau ynni adnewyddadwy ar y môr ar draws Ewrop. Mae ESCA hefyd wedi cyhoeddi datganiad cynghori ar longau'n gweithredu yng nghyffiniau ceblau tanfor. Hefyd, nodir llwybrau ceblau yn y Datganiad Technegol hwn, ac ar fap ymwybyddiaeth o strwythurau ynni adnewyddadwy ar y môr a cheblau KIS-ORCA, ar siartiau Swyddfa Hydrograffig y DU ac ar Borthol Cynllunio Morol Cymru.

Mae'r mapiau canlynol yn dangos ceblau tanforol a'r ardal SAF_01a ar gyfer Ceblau Tanfor sy'n berthnasol ar ddyddiad cyhoeddi'r Datganiad Technegol. Dylai datblygwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau gyfeirio at fapiau cyfredol ar Borthol Cynllunio Morol Cymru a chyfeirio at y Borthol Cynllunio Morol ar gyfer map cyfun o geblau tanforol cyfredol a'r ardal SAF_01a ar gyfer Ceblau Tanfor.

Tarddwyd yr Ardal Ceblau Tanfor SAF_01 o ddata a ddarparwyd gan OceanWise ar leoliadau ceblau tanfor sy'n rhedeg drwy ardal Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Gan adlewyrchu'r angen i ganiatáu mynediad diogel at geblau sydd wedi'u gosod, defnyddiwyd clustog o 250 metr ar naill ochr pob cebl o fewn ardal Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru i greu'r ardal ddiogelu SAF_01a. Penderfynwyd ar y ffigwr hwn yn dilyn trafodaeth gydag ESCA ac Ystâd y Goron, ac mae'n glustog safonol a dangosol, sy'n adlewyrchu Parth Cyfyngu Gwaith Ystâd y Goron ar gyfer ceblau tanfor telathrebu a cheblau rhyng-gysylltu trydanol. Fodd bynnag, yn ymarferol, bydd angen i ddatblygwyr a'r penderfynwyr sicrhau bod digon o le yn cael ei neilltuo ar gyfer mynediad diogel at geblau a osodwyd ac ar gyfer eu hatgyweirio: gan amlaf, mae hyn yn golygu clustog naill ochr i'r cebl o dair gwaith dyfnder y dŵr. Yn ogystal, mae canllawiau ESCA yn datgan, os cynigir gweithgarwch o fewn un filltir fôr i gebl, y dylid trafod er mwyn cytuno ar derfynau agosrwydd sy'n dderbyniol i bob parti.


# Ceblau Tanforol




© Coron Prydain ac OceanWise, 2023. Cedwir pob hawl.
Rhif trwydded EK001-20120402.
Cynnwys data OS © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2023.
Môr a Physgodfeydd, Llywodraeth Cymru. Mai 2023.

# Ceblau Tanforol

Ardaloedd a ddiogelir gan bolisi SAF_01a



Ardal SAF_01a Ceblau Tanforol

Ffin Ardal CMCC

0 25 50 km

© Coron Prydain ac OceanWise, 2023. Cedwir pob hawl.
Rhif trwydded EK001-20120402.
Cynnwys data OS © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2023.
Môr a Physgodfeydd, Llywodraeth Cymru. Mai 2023.